Diweddariad Blynyddol PPC – 2022/2023

Croeso i ddiweddariad blynyddol Partneriaeth Pensiwn Cymru, sy'n rhoi cipolwg i chi o'r gwaith y mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi'i wneud dros y deuddeg mis diwethaf.

Mae sesiynau hyfforddi PPC yn parhau i gael eu cynnal yn rhithwir ac mae'r presenoldeb a'r ymgysylltiad yn rhagorol. Cynhaliwyd pedair sesiwn hyfforddi yn ystod 2022/23 yn unol â chynllun hyfforddi cymeradwy 2022/23, a rhoddwyd gwahoddiad i aelodau unigol y Pwyllgor Pensiwn a'r Bwrdd Pensiwn i bob un o'r sesiynau. Hefyd darparwyd hyfforddiant cynefino i bedwar o aelodau newydd y Cydbwyllgor Llywodraethu. Unwaith eto, gwnaethom wahodd cyflwynwyr allanol i amrywio'r hyfforddiant a ddarparwyd ac i barhau i gael adborth cadarnhaol. Hoffem ddiolch i bawb sy'n parhau i wneud y sesiynau hyfforddi hyn yn llwyddiant.

Mae manylion ein cynllun hyfforddi ar gyfer 2023/24 yn ogystal â'n cynllun gwaith ar gyfer 2023/24 wedi'u cynnwys yn ein cynllun busnes, sydd i'w weld ar wefan PPC: Cronfa Bensiwn Cymru | Cartref (partneriaethpensiwncymru.org). Mae'r cynllun gwaith wedi'i rannu'n sawl adran allweddol ac mae'r rhain i gyd yn hanfodol i lwyddiant parhaus PPC, gan gynnwys Llywodraethu, Buddsoddiadau ac Adrodd, ynghyd â Chyfathrebu a Hyfforddiant.

Ar 31 Mawrth 2023, mae'r gronfa wedi cynnal ei chyfran o asedau cyfun ar oddeutu 70% (sy'n cynnwys ein Buddsoddiadau goddefol). Fel cronfa rydym yn bwriadu cynyddu'r lefel hon yn ystod 2023/24 a chyda chymorth gan Link Fund Solutions a Russell Investments mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo o ran datblygu is-gronfa'r Ecwitïau Gweithredol Cynaliadwy. Mae'r is-gronfa newydd hon yn ateb ecwiti gweithredol cynaliadwy aml-reolwr amrywiol sydd wedi'i greu yn ôl gofynion pwrpasol PPC. Bydd y gronfa'n lansio yng nghanol 2023 gyda buddsoddiad cychwynnol o tua £1.2bn, ac mae'r wyth cronfa yng Nghymru yn cymryd rhan. Bydd yr is-gronfa'n gwella'r dewisiadau sydd ar gael i Awdurdodau Cyfansoddol PPC ac yn cyd-fynd â'u hamcanion cynaliadwyedd sy'n datblygu. Mae'r ateb yn cynnig yr hyblygrwydd i ddatblygu wrth i ofynion PPC newid, neu wrth i'r dirwedd gynaliadwy barhau i ddatblygu.

Ers penodi'r dyranwyr marchnad breifat cyntaf yn 2021/22, eleni mae gwaith sylweddol wedi cael ei wneud yn y maes marchnadoedd preifat, gyda lansiad cychwynnol rhaglenni buddsoddi Seilwaith a Chredyd Preifat PPC, yn cael eu hadeiladu gan GCM Grosvenor a Russell Investments yn y drefn honno. Bydd buddsoddiadau seilwaith penagored PPC (IFM, Octopus a CBRE) yn rhoi mynediad i'r Awdurdodau Cyfansoddol i ynni adnewyddadwy ac asedau craidd amrywiol byd-eang sy'n canolbwyntio ar incwm a byddant yn cwblhau cam cyntaf prosiect buddsoddiadau caeth PPC.

Mae Cam 2 yn ymgorffori buddsoddiadau Ecwiti Preifat ac ym mis Rhagfyr 2022 cadarnhawyd Schroders Capital fel y partner a ddewiswyd i adeiladu rhaglen fuddsoddi Ecwiti Preifat PPC. Mae gwaith ar y gweill i lansio'r gronfa ac mae disgwyl i'r ymrwymiadau cyntaf gymryd lle cyn diwedd 2023/24. Mae cam olaf y prosiect, gan edrych ar fuddsoddiadau Eiddo Tirol, wedi cyrraedd cam mandad, ac mae disgwyl i'r ateb fynd i'r afael â gofynion Awdurdodau Cyfansoddol ar draws eiddo Core UK, eiddo Byd-eang, a buddsoddiadau lleol yng Nghymru. Mae disgwyl i gaffaeliadau gael eu lansio yn ddiweddarach eleni.

Roedd ecwitïau'n parhau i wynebu amgylchedd marchnad cyfnewidiol a heriol yn ystod 2022/23. Roedd buddsoddwyr yn rhagweld cyfnodau hir â chyfradd llog uwch wrth i fanciau canolog frwydro yn erbyn chwyddiant uchel parhaus, gan arwain at adenillion absoliwt negyddol ar gyfer is-gronfeydd ecwiti yn gynnar yn y cyfnod. Fodd bynnag, roedd amodau'r farchnad wedi gwella yn hanner olaf y cyfnod ac roedd buddsoddwyr wedi'u calonogi gan arwyddion fod chwyddiant yn cael ei ffrwyno a'r posibilrwydd fod Tsieina'n ailagor ar ôl cyfyngiadau Covid-19. O ganlyniad, roedd y rhan fwyaf o'r is-gronfeydd ecwiti wedi cyflwyno enillion dros ben cadarnhaol dros y cyfnod. Roedd marchnadoedd incwm sefydlog yn cael trafferth ochr yn ochr â marchnadoedd ecwiti wrth i wasgariadau ehangu'n amlwg, yn enwedig o fewn credyd arenillion uchel. Er gwaethaf yr amgylchedd heriol,

roedd Cronfa Bond Elw Absoliwt wedi creu elw absoliwt cadarnhaol gan barhau i weithredu fel cyfrwng arallgyfeirio effeithiol. Dengys y tabl isod berfformiad yr is-gronfeydd yn ystod y 12 mis diwethaf.

	Perfformiad PPC dros 12 mis hyd at 31 Mawrth 2023 (Ffioedd Net)				
	Dyddiad Dechrau	Asedau dan reolaeth (£'000)	Cronfa %	Meincnod %	Cymharol %
Is-gronfeydd Ecwiti					
Twf Byd-eang	6 Chwefror 2019	3,275,477	(0.90)	(1.43)	0.53
Cyfleoedd Byd-eang	14 Chwefror 2019	3,270,570	0.28	(1.43)	1.71
Cyfleoedd y DU	11 Hydref 2019	760,446	4.23	2.92	1.31
Marchnadoedd Datblygol	29 Hydref 2021	355,136	(3.62)	(3.48)	(0.14)
Is-gronfeydd Incwm Sefydlog					
Credyd y DU	19 Awst 2020	520,811	(9.38)	(9.58)	0.20
Bond Llywodraeth Fyd-eang	19 Awst 2020	481,624	(5.10)	(6.62)	1.52
Credyd Byd-eang	20 Awst 2020	693,812	(8.43)	(6.56)	(1.87)
Cronfa Credyd Aml-asedau	11 Awst 2020	655,475	(6.23)	6.36^	
Bond Elw Absoliwt	30 Medi 2020	559,335	2.07	4.32^	

Ffynhonnell: Adroddiad Northern Trust hyd at 31 Mawrth 2023

^ Mae'r rhain yn cynrychioli targedau perfformiad y Cronfeydd Credyd Aml-asedau a Bond Elw Absoliwt

Yn ystod 2022/23, roedd PPC yn falch iawn o barhau i fod yn llofnodwr Cod Stiwardiaeth y DU, yn dilyn cyhoeddi ei hail Adroddiad Stiwardiaeth blynyddol. Eleni mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi gwella ei dull gweithredu fel buddsoddwr cyfrifol ymhellach drwy sefydlu fframwaith ymgysylltu i adolygu ei Themâu Stiwardiaeth, gwella adroddiadau yn unol â gofynion Cod Stiwardiaeth y DU a pharhau i adolygu mandadau is-gronfa presennol i sicrhau eu bod yn gydnaws â Chredoau Buddsoddi Cyfrifol a Risg Hinsawdd Partneriaeth Pensiwn Cymru. Hefyd dechreuodd y gwaith ar gynnal asesiad ledled Cymru o ran datguddiadau hinsawdd, wrth baratoi ar gyfer gofynion adrodd sydd ar y gweill yn unol â'r Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd.

Fel rhan o'i hymrwymiad i stiwardiaeth, mae PPC yn parhau i ymgysylltu â Robeco fel ei Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu. Mae PPC yn gosod ei Themâu Stiwardiaeth ei hun ac, ar gyfer 2022/23, canolbwyntiodd PPC ar: sero net; cefnogi pobl (cyfalaf dynol) a chyflawni canlyniadau cynaliadwy (llywodraethu). Mae'r tablau isod yn crynhoi'r gweithgarwch pleidleisio ac ymgysylltu a gynhaliwyd gan Robeco ar ran PPC dros y 12 mis diwethaf. *

Y pleidleisiau a fwriwyd	15,523	Nifer y cyfarfodydd	1,218
Dros	13,472 (87%)	Gyda'r rheolwyr	13,200 (85%)
Yn erbyn	1,797 (12%)	Yn erbyn y rheolwyr	2,323 (15%)
Arall	254 (2%)		
Cyfanswm	15,523	Cyfanswm	15,523

	Cyfanswm
Yr Amgylchedd	199
Cymdeithasol	85
Llywodraethu Corfforaethol	73
Nodau Datblygu Cynaliadwy (NDC)	101
Dadleuon Byd-eang	72
Yn gysylltiedig â phleidleisio	9
Cyfanswm	539

Ffynhonnell: Robeco; Mae canrannau'r cyfansymiau wedi'u talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf

Mae taith Partneriaeth Pensiwn Cymru yn parhau ac mae cynnydd da yn cael ei wneud ar draws pob agwedd ar y gronfa. Mae lefel y cydweithredu rhwng yr wyth Awdurdod Cyfansoddol yn parhau i fod yn gryf a hoffem ddiolch i'r Awdurdodau Cyfansoddol am eu cyfraniadau parhaus. Rydym yn edrych ymlaen at ddatblygu'r gronfa hon ymhellach yn y blynyddoedd nesaf.